**Cofnodion**
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol**
**25 Chwefror 12.00-1.30pm**
**Ar-lein, drwy Microsoft Teams**

## Agenda

1. Croeso, ymddiheuriadau, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Cadeirydd: Angela Burns AS [5 munud]
2. Testun trafodaeth: Lansio'r canfyddiadau o'r ymchwiliad i weithredu argymhellion yr Athro Reid i wella amgylchedd Ymchwil Feddygol Cymru.
   a. Dr Charmaine Griffiths [20 munud]
   b. Dr Bryan Deane [20 munud]
   c. Dr Alan Parker [20 munud]
   ch. Yr Athro Kieran Walshe [20 munud]
3. Unrhyw Fater Arall [5 munud]
4. Cloi

## Yn bresennol

1. Angela Burns AS (cadeirydd)
2. Dr Dai Lloyd AS (Aelod)
3. Gemma Roberts, BHF (Ysgrifenyddiaeth)
4. Adam Fletcher
5. Alan Parker
6. Alaw Davies
7. Alexander Smith
8. Andy Glyde
9. Ann Tate
10. Ben Hawkey Gilder
11. Bethan Edwards
12. Beverly Lunchmun
13. Carys Thomas
14. Charmaine Griffiths
15. Claire Kelly
16. Colin Dayan
17. Delyth Morgan
18. Denise McAnena
19. Dominic Eggbeer
20. Dora Szalkay
21. Dreane Bryan
22. Ed Bridges
23. Emma Henwood
24. Falicity Waters
25. Fernando Pabst Silva
26. George Christopher
27. Greg Pycroft
28. Henry Lovett
29. Huw Jones
30. Ian Lewis
31. James Walters
32. Jamie Macdonald
33. Joanne Ferris
34. Joanne Oliver
35. Jonathan Roden
36. Julie Williams
37. KR Lloyd
38. Karen Leek
39. Katie MacGregor
40. Kieran Walshe
41. Laura Longshaw
42. Lee Campbell
43. Lee Campbell
44. Leila Gouran
45. Liz Williams
46. Matthew Morgan
47. Matthew Norman
48. Matthew O'Grady
49. Michael Bowdery
50. Michael Stembridge
51. Mike Bryan
52. Nick Thomas
53. Nicolas Webb
54. Paul Spencer
55. Penny Evans Angharad
56. Rachael Adams
57. Rachel Lord
58. Rae DePaul
59. Rhian Thomas-Turner
60. Rhodri Conway Davies
61. Rich Greville
62. Richard Clarkson
63. Robert Rogers
64. Rylan Doyle
65. Sarah Williamson
66. Stephen Riley
67. TE Hawson
68. Tim Banks

**Eitem 1. Croeso a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Croesawodd Angela bawb i gyfarfod olaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol. Noda bod y cyfarfod yn cael ei recordio.

Cafodd Angela ei henwebu gan Dai Lloyd i fod yn Gadeirydd, a chymeradwywyd hyn gan y grŵp. Cytunwyd i ddosbarthu'r cyfrifon i Aelodau'r Grŵp.

Sefydlwyd y grŵp yn 2019, gyda'r diben o gynnal adolygid o ymchwil feddygol yng Nghymru yn dilyn Adolygiad Reid. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r rhain. 1) Bylchau cyllido amlwg sy'n ehangu 2) Trafferthion o ran cydweithredu 3) Diffyg cymorth gyrfa ymchwil.

Rhaid gweithredu ar frys i weithredu argymhellion Reid. Mae COVID-19 yn dangos pwysigrwydd hyn. Mae angen newid sylweddol yn y gefnogaeth i ymchwil.

Noda Angela faint mae wedi mwynhau'r cyfarfodydd ac wedi gadael pob cyfarfod gyda gwell dealltwriaeth o waith ymchwil. Mae COVID-19 wedi amlygu hyn ymhellach ac wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw mwy o gefnogaeth i ymchwil feddygol.

Diolcha i'r ysgrifenyddiaeth a chyflwyno Dr Charmaine Griffiths.

**Eitem 2a. Charmaine Griffiths**

Diolch Angela.

Siarada am effaith COVID-19 ar ymchwil. Tynnwyd sylw at y camau yn yr adroddiad a gweithredu arnynt. Mae angen i Gymru ganolbwyntio ar waith ymchwil ym mhob lleoliad.

Mae effaith COVID-19 ar gyllid y sector elusennol wedi bod yn sylweddol.

Mae'r pandemig wedi amlygu'r angen am genedl iach i wrthsefyll y pandemig a bod yn wydn ar gyfer y dyfodol. Hefyd, grym ymchwil feddygol i wneud darganfyddiadau ar gyfer y dyfodol ac arfogi ein hunain i fod yn wydn.

Dylem fod yn falch o'n gwaith. Mae BHF yn ariannu 55% o waith ymchwil na chaiff ei noddi'n fasnachol i afiechydon y galon a chylchrediad y gwaed. Mae pryder am effaith y pandemig ar hynny.

Caiff gwerth £4 miliwn o waith ymchwil ei ariannu yng Nghymru. Mae hyn yn ariannu gwaith ymchwil yng Nghymru y gwyddom fydd yn cael effaith hirdymor ar gleifion.

Roedd yn amlwg o ddechrau'r pandemig bod canlyniadau o ran y cysylltiad rhwng clefyd y galon a COVID-19. Darparwyd cyllid i ymdrechion blaengar i ddeall y cysylltiad hwn. Aethpwyd ati i sefyll yn gadarn gydag elusennau yn y sector i alw am gefnogaeth i elusennau ymchwil feddygol. Fu erioed cymaint o angen cefnogaeth i'n gwasanaethau.

Mae elusennau wedi bod yn hanfodol yn yr ecosystem Ymchwil a Datblygu drwy greu cyfleoedd arloesi, gwella sgiliau a thynnu'r risg oddi ar ymchwil cyfnod cynnar.

Mae'r BHF yn ariannu 29 o dreialon clinigol gweithredol ar hyn o bryd, ar gyfanswm o tua £30 miliwn o fuddsoddiad.

Mae 1,700 o staff ymchwil ar draws y DU yn gweithio ar 800 o brosiectau. 440 mewn ymchwil gyrfa gynnar.

Y pandemig COVID-19 yw'r her fwyaf mewn 60 mlynedd o hanes. Canslwyd digwyddiadau, caewyd siopau. Roedd BHF yn colli tua £10 miliwn y mis mewn refeniw yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Collwyd gwerthiant o £320 miliwn yn ystod y cyfyngiadau symud byr yng Nghymru yn yr hydref. Collodd siopau 62% mewn gwerthiant ers mis Ebrill. Mae hyn yn golygu llai o gyllid ar gyfer gwaith ymchwil. Nid oes cefnogaeth amlwg i gyllid ymchwil. Wedi bod yn lobïo'n galed. Nid yw £750 miliwn ar gyfer prifysgolion yn gymwys ar gyfer ymchwil elusennol feddygol.

Mae'r sector yn wynebu diffyg o tua £310 miliwn. Bydd yn cymryd tair blynedd i ddychwelyd i lefelau cyllido blaenorol. Mae 4 o bob 10 o ymchwilwyr sy'n gynnar yn eu gyrfa yn gadael y DU. Rydym yn gweithio gyda nhw i ddeall eu hanghenion a'u cefnogi'n well. Mae myfyrwyr PhD wedi cael cynnig estyniadau o 6 mis, 110 o fyfyrwyr. Mae risg o golli cenhedlaeth o ymchwilwyr.

Mae BHF wedi gorfod haneru cyllid ymchwil. Mae pryder os na fyddwn yn cynnal yr ecosystem, byddwn yn colli'r sail ymchwil sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'n rhaid dweud na wrth ymchwil yr hoffem ei chyllido. Rydym yn edrych ar opsiynau i gadw'r cyllid ymchwil craidd.

Mae darganfyddiadau newydd yn dal i ddigwydd bob dydd a phob wythnos, ac mae pryder y bydd bygythiadau i gyllid yn atal cynnydd. Mae angen gweld cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Diolcha Angela i Charmaine, gan gydnabod fod hwn yn ddadansoddiad difrifol o fygythiad i ymchwil elusennol.

Estynna Angela groeso i Bryan Deane, ABPI

**<u>Eitem 2b. Bryan Deane</u>**

Diolch Angela.

Gyda datblygiadau ym maes genomeg a symudiadau tuag at haeniad, mae meddyginiaethau yn trawsnewid bywydau. Rydym am wneud y DU y lle gorau ar gyfer meddyginiaethau newydd.

Mae Pharma yn cyflogi 63,000 o bobl ac mae 6 gwaith yn fwy cynhyrchiol na chyfartaledd y DU.

Adlewyrchu ar adroddiad yr ymchwiliad. Croesawu'r lansiad, mae'n cyflwyno materion. Mae hefyd yn codi'r cwestiwn a ydym am ganolbwyntio ar feysydd o gryfder.

Cyllido – mae Cymru wedi dibynnu ar gyllid yr UE. Mae angen inni ddeall cysylltiad y DU-UE o ran ymchwil ac a oes unrhyw fylchau ac a ellir eu llenwi. Awydd i adfer o'r pandemig yn y maes ymchwil clinigol.

Cydweithredu - Mae gan gwmnïau sy'n aelodau gydweithrediadau da eisoes. Mae angen cydweithredu rhwng academia, diwydiant, y gwasanaeth iechyd ac elusennau. Mae COVID-19 wedi dangos sut y gall symud pethau yn eu blaenau ac mae angen inni adeiladu ar hyn wrth ddod allan o COVID-19. Cyflwynwyd enghreifftiau o gydweithredu. Cyhoeddwyd pecyn cymorth ar gydweithio yng Nghymru.

Gyrfaoedd Ymchwil - Roedd adroddiad treialon clinigol yn dangos bod angen agor y gwaith ymchwil i bawb - nid ychydig o arbenigwyr. Mae angen cyflwyno hyn i ofal clinigol ehangach er mwyn galluogi rhagor o gleifion i gael gafael arno. Cyhoeddwyd papur y llynedd. Mae angen cefnogi STEM mewn addysg hefyd - mae ABPI yn gwneud hyn.

Cyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd – Cefnogi hyn. Mae COVID-19 wedi dangos nad yw hyn eto wedi ei wreiddio'n llawn yn ein gwaith ymchwil. Mae angen cynllunio gwaith ymchwil y dyfodol i fod yn fwy agored i anghenion cleifion.

Y brif thema yw cydweithredu ynghylch lle mae angen inni ganolbwyntio a sut rydym yn symud ymlaen.

Diolcha Angela i Brian. Agora'r drafodaeth i gwestiynau i Charmaine a Brian.

**Cwestiynau**

Daw cwestiwn gan Julie Williams ynghylch treialon clinigol. Nid oes llawer yn cael eu cynnal yng Nghymru, a oes mwy y gallwn ei wneud ynghylch hyn? Yn arbennig Genomeg.

Bryan - Roedd 222 o dreialon yng Nghymru cyn COVID-19, a'r broblem fwyaf yw ailddechrau treialon ar ôl COVID-19. Mae angen amseru fesul safle ar gyfer ailddechrau.

Charmaine – Mae'r BHF yn ariannu llawer o dreialon mewn dull ymateb. O ran gwyddoniaeth ddata – mae canolfan wyddoniaeth data BHF yn llywio COVID-19 ac yn llywio cysylltu data.

Gwnaeth Lee Campbell sylw am y ffaith bod contractau gwasanaeth byrddau iechyd wedi bod yn waharddol o ran ymchwil.

Holodd Angela ynghylch diffyg Cymru ar gyfer BHF yng Nghymru.

Adam Fletcher – Mae incwm net i lawr 50%. Codwyd £5 miliwn yng Nghymru. £4 miliwn o wariant ar brosiect Cymru, hefyd prosiectau CPR a HBP. Mae gostyngiad o 50% yn gwymp enfawr.

**Eitem 2c. Dr Alan Parker**

Diolch Angela.

Cyflwyna ei hun. Caiff grŵp mawr ei gefnogi gan nifer o gyllidwyr trydydd parti. 20 ymchwilydd yn y grŵp – grŵp mawr yn nhermau academaidd.

Mae'r gwaith yn cynnwys canser, imiwnoleg a feiroleg ac mae cysylltiadau â llawer o adeiladau a llawer o arbenigeddau yn galluogi'r gwaith hwnnw. Gweithio ar firysau clyfar i fynd i'r afael â chanser.

Arbenigedd mewn feiroleg. Ystyrir eu bod yn arweinwyr rhyngwladol mewn canser a feiroleg ehangach. 3,000+ o fectorau feirol.

Yn ystod y pandemig, defnyddiwyd fectorau feirol i ddatblygu brechlynnau. Cafwyd cyllid i gael arbenigwyr mewn clefydau heintus drosodd o America i roi cymorth.

Nid yr unig dîm yng Nghaerdydd yn rhoi cefnogaeth adweithiol i'r ymateb i COVID-19. Rhestrir enghreifftiau, ond mae llawer mwy yng Nghaerdydd ac o amgylch Cymru.

Effaith COVID-19 ar ymchwil – cafodd 90% o'i ymchwil ei atal gan effeithio ar gynhyrchiant. Dychwelyd fesul cam ar sail blaenoriaeth. Mae pellter cymdeithasol yn dal i effeithio ar gynhyrchiant. Mae hefyd wedi effeithio ar gael gafael ar samplau clinigol. Mae'r gwaith yn digwydd bellach ar batrwm shifft. Gellir gweld effaith y diffyg trafodaeth anffurfiol dros goffi ar syniadau ymchwil ac ati. Gwelir effaith ar iechyd meddwl.

Dadansoddiad SWOT o ymchwil yng Nghymru. Cryfderau - pocedi o ymchwil rhyngwladol (canser, niwroleg, imiwnoleg a feiroleg). Seilwaith unigryw a hanes o genedlaethau o Eiddo Deallusol. Gwendidau - diffyg màs critigol (hyd yn oed mewn meysydd o gryfder), colli talent y dyfodol. Diffyg seilwaith i symud gwaith ymchwil i glinig, diffyg cronfa arloesi i gefnogi masnacheiddio. Cyfleoedd - Alinio yn y biblinell drosi, canolfan ymchwil ganser deirochrog Caerdydd, allai arwain yn fyd-eang, gyda buddsoddiad. Bygythiadau - colli'r Eiddo Deallusol y tu allan i Gymru, toriadau i'r trydydd sector. Cynnydd mewn costau adweithredwyr sylfaenol oherwydd Brexit (dwbl neu drebl), peidio gweithredu CReSt.

**2ch. Yr Athro Kieran Walshe**

Mae'n adroddiad gwych. Roedd adolygiad Reid yn gyfyngedig o ran cwmpas, ond mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn gadarn iawn.

Mae cyllid yn ddarlun cymhleth o ran y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru. Mae amrywiaeth o gynhyrchwyr a defnyddwyr. Mae'n bwysig ystyried sut y caiff ymchwil ei drosi'n bolisi.

Caiff Cymru 2.4% o gyllid cyhoeddus ac elusen. Tua hanner yr hynny gallech ei ddisgwyl. Mae'n debyg i Ogledd Iwerddon, de-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae cyllid anghyfartal iawn tuag at y triongl euraidd. Nid yw'n cael cyfran o gyllid ymchwil y DU-gyfan

ac mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi llai yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) nag yn y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR).

Aeth drwy nodau a diben HCRW. Mae'n bwysig creu system ymchwil gynaliadwy i gefnogi gyrfaoedd ymchwil.

Mae HCRW yn defnyddio adnoddau i weithredu fel catalydd ar gyfer cyllid grant ehangach a chreu system gymorth a darparu ar gyfer ymchwil.

Yr hyn mae HCRW wedi'i ddysgu o'r pandemig. Mae wedi dangos pa mor bwysig yw ymchwil yn y ffordd rydym yn ymateb i'r pethau hyn. Mae'r hyn sydd wedi digwydd yn y DU wedi dangos effaith ar draws y gwaith. Treialon ADFER, datblygu genomeg a brechlynnau ar gyfer COVID-19. Mae Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) wedi ariannu nifer fawr o waith ymchwil. Gwersi - mae ymchwil yn bwysig, mae cael y wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth yn heriol, mae angen i ymchwil symud yn gyflym i aros yn gyfredol. Synthesis tystiolaeth a chyfathrebu cyflym. Buddsoddodd y llywodraeth mewn canolfan dystiolaeth COVID-19. Canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth.

**<u>Cwestiynau</u>**

Gofynna Angela a allwn wneud yr hyn rydym wedi'i wneud ar gyfer COVID-19 mor gyflym - allwn ni gymryd pethau i wneud yr un fath i feysydd eraill.

Alan – os edrychwn ni am yr haul ar fryn, un peth yw'r cyflymder y gall y gwahanol gamau weithio – dylai fod yn ysgogiad i'n holl waith i lywio'r gwaith ymlaen.

Kieran – gair o rybudd o niwed i ymchwil ehangach, mae cysylltu data wedi bod yn wers enfawr o ran COVID-19 sydd angen ei chario drosodd.

Gofynna Matthew Morgan gwestiwn ynghylch ymchwil ehangach y tu allan i glefydau cronig a pha gymorth y bwriedir ei roi i academyddion clinigol.

Kieran – mae HCRW a HEIW yn adolygu'r cymorth mapio ar gyfer llwybrau gyrfa. Mae cynlluniau cyllido yn bodoli ac nid ydynt yn faterion sy'n unigryw i Gymru.

Keith Lloyd – mae cronfa ddata SAIL wedi bod yn gryfder o ran ymchwil i Gymru. Gofynna am gyllideb HCRW.

Bydd Kieran yn datblygu argymhellion yr adroddiad i lunio'r achos dros ragor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

Julie Williams – gofynna pam mae lefelau cyllido cyhoeddus mor isel. Gofynna a yw hyn yn ymwneud â chapasiti a bod angen rhoi'r gorau i wneud ymchwil yn rhad. Mae COVID-19 wedi dangos pwysigrwydd buddsoddi ac y gall sicrhau canlyniadau.

Cytuna Alan â hyn, ac mae'n datgan bod Cymru yn colli talentau'r dyfodol drwy ddiffyg cefnogaeth. Mae'n hawdd gwneud yr achos busnes gan ei fod yn cynhyrchu mwy o arian na'r

costau cadw. Mae Eiddo Deallusol yn cael ei golli o Gymru hefyd (cwmni gyda buddsoddiad cychwynnol o £10-30 miliwn). Mae angen gwella o ran trosi Eiddo Deallusol i gynyddu buddsoddiad mewnol.

James Walters – Pwynt sylfaenol yw tegwch y cyllid. Mae’r cyllid yn anghymharol â Lloegr a’r cyllid hwn sy’n caniatáu buddsoddiad ehangach.

**<u>Eitem 3. Unrhyw Fater Arall</u>**

Diolcha Gemma i Angela am ei holl waith ar y Grŵp Trawsbleidiol.

Bydd Angela yn anfon adroddiad at y Gweinidog Iechyd, a byddwn hefyd yn llunio adroddiad gwaddol ar gyfer adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol yn y sesiwn hon.

Diolcha Angela hefyd i Dai Lloyd. Diolcha i Gemma a phawb am eu presenoldeb ac am eu gwaith ar y Grŵp Trawsbleidiol.

**<u>Eitem 4. Cloi 1.37pm</u>**